*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 143(3) a (4)(e)(ii) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U  D R A F F T

# 2026 Rhif

# Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Ddarfodol) 2026

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

*Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 143(3) and (4)(e)(ii) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1).*

D R A F T  W E L S H  S T A T U T O R Y  I N S T R U M E N T S

# 2026 No.

# The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Consequential Amendments and Transitory Provision) Regulations 2026

*Made* ***

*Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)*

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 143(3) a (4)(e)(ii) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U   D R A F F T

# 2026 Rhif

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Ddarfodol) 2026

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 146 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2022, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi.

Mae Deddf 2022 yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"), yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoleiddio a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiad sy'n ganlyniadol ar roi swyddogaethau i'r Comisiwn gan Ran 3 o Ddeddf 2022.

Mae rheoliad 3 yn gwneud diwygiad sy'n ganlyniadol ar ddiwygiadau i adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac yn darparu ar gyfer addasiad dros dro cysylltiedig.

Mae rheoliadau 4 a 5 yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol ar roi swyddogaethau i'r Comisiwn gan Ran 3 o Ddeddf 2022 ac ar ddiddymu darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000").

Mae rheoliad 6 yn gwneud diwygiad sy'n ganlyniadol ar roi swyddogaethau i'r Comisiwn gan Ran 3 o Ddeddf 2022.

Mae rheoliad 7 yn gwneud diwygiadau sy’n ganlyniadol ar ddiddymu darpariaethau yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Mae rheoliad 8 yn gwneud diwygiad sy’n ganlyniadol ar ddiddymu darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf 2000 ac mae rheoliad 9 yn gwneud diwygiad sy’n ganlyniadol ar ddiwygiadau i Ran 2 o Ddeddf 2000.

Mae rheoliad 10 yn gwneud diwygiad sy’n ganlyniadol ar roi swyddogaethau i’r Comisiwn gan Ran 3 o Ddeddf 2022 ac ar ddiddymu darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf 2000.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 143(3) a (4)(e)(ii) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2026 Rhif

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Ddarfodol) 2026

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 146 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022([1]), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 143(3) a (4)(e)(ii) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaeth Ddarfodol) 2026.

(2) Daw'r rheoliad hwn a rheoliadau 2 a 4 i 10 i rym ar 1 Ebrill 2026.

(3) Daw rheoliad 3 i rym ar 31 Gorffennaf 2026.

**Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998**

**2.** Yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998([2]), yn adran 82 (addasu gweithredoedd ymddiriedolaeth), yn is-adran (1), yn lle "or the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013" rhodder ", the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 or the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022".

(**1**) 2022 dsc 1.
(**2**) 1998 p. 31. Diwygiwyd adran 82(1) gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 108; Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40), Atodlen 3, paragraff 28; Deddf Academïau 2010 (p. 32), Atodlen 2, paragraff 9; a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1), Atodlen 5, paragraff 19(1) ac (8).

### Deddf Safonau Gofal 2000

**3.**—(1) Yn Neddf Safonau Gofal 2000(**3**), yn Atodlen 2B (personau y mae eu trefniadau yn ddarostyngedig i'w hadolygu gan y Comisiynydd o dan adran 73), yn lle paragraff 8 rhodder—

> **"8.** Any tertiary education provider (other than one within paragraph 6, 7, 9 or 10) that is registered in a category specified in regulations made for the purposes of section 88 or 105 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022."

(2) Mae'r addasiad a nodir ym mharagraff (3) yn gymwys hyd nes y daw paragraff 6(3)(c) o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i rym yn llawn.

(3) Mae Atodlen 2B i Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn cael effaith fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 8—

> **"8A.** Any university receiving financial support under section 65 of the Further and Higher Education Act 1992(**4**) (other than one within paragraph 7 or 8)."

### Gorchymyn Ymgorffori Coleg Catholig Dewi Sant 2005

**4.** Yng Ngorchymyn Ymgorffori Coleg Catholig Dewi Sant 2005(**5**), yn erthygl 10 (diddymu), ym mharagraff (2)(a)—

(a) o flaen paragraff (i) mewnosoder—

> "(ai) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil neu Weinidogion Cymru o dan adran 97 neu 103 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill 2026;";

(b) yn lle paragraff (i) rhodder—

> "(i) Gweinidogion Cymru o dan adran 34 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**6**) yn y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill 2006 ac yn gorffen â 31 Mawrth 2026;".

### Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**7**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

> "ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022;".

(3) Yn rheoliad 8 (taliadau gan Weinidogion Cymru)—

---

(**3**) 2000 p. 14. Mewnosodwyd Atodlen 2B gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (p. 18), Rhan 2 o'r Atodlen.

(**4**) 1992 p. 13. Diwygiwyd adran 65 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 27; Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (p. 10), adrannau 34(1) a 42(6) ac Atodlen 9; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 5(2); a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), Atodlen 11, paragraffau 12 a 15. Mae adran 65 yn ddarostyngedig i addasiadau darfodol yn rhinwedd O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) ac mae i'w diddymu gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 6(3)(c).

(**5**) O.S. 2005/2293 (Cy. 171), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3238 (Cy. 243).

(**6**) 2000 p. 21. Diwygiwyd adran 34 gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1), paragraffau 1 i 3 a 6 o'r Atodlen. Mae adran 34 wedi ei diddymu gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 14(18).

(**7**) O.S. 2007/2310 (Cy. 181), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, 2013/1792 (Cy. 179), 2020/1302 (Cy. 287), 2021/481 (Cy. 148), 2021/1365 (Cy. 360), 2022/764 (Cy. 166), 2023/87 (Cy. 17), 2023/633 (Cy. 97) a 2023/1349 (Cy. 243). Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle “gyfreithlon i” rhodder “gyfreithlon i’r Comisiwn neu”;

(ii) yn lle “adran 34 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000” rhodder “adran 97 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022”;

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle “sefydliad y mae Gweinidogion” rhodder “sefydliad y mae’r Comisiwn neu Weinidogion”;

(ii) yn lle “adran 34 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000” rhodder “adran 97 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022”.

### Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

**6.** Ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(**8**), yn adran 1 (y prif dermau a ddefnyddir yn y Mesur hwn), yn is-adran (4)(g), ar ôl “adran 97” mewnosoder “neu 103”.

### Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**7.**—(1) Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**9**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 (newidiadau rheoleiddiedig)—

(a) ym mharagraff 10 (newidiadau i fangreoedd), yn is-baragraff (3)(c)(i), yn lle “, 68 neu 72” rhodder “neu 68”;

(b) ym mharagraff 19 (cynnydd yn nifer disgyblion: ysgolion arbennig), yn is-baragraff (2)(c)(i), yn lle “, 68 neu 72” rhodder “neu 68”.

(3) Yn Atodlen 5 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol), ym mharagraff 19(7)(b), hepgorer “section 75(2)(b) of,”.

### Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

**8.** Yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014(**10**), yn adran 6 (diddymu dyletswyddau sefydliadau addysg bellach i gydymffurfio â chyfarwyddiadau), hepgorer is-adran (1).

### Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015

**9.** Yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015(**11**), yn Atodlen 3 (gofynion sydd i’w bodloni gan bersonau nad ydynt yn athrawon cymwysedig er mwyn cyflawni gwaith penodedig), ym mharagraff 6 (athrawon addysg bellach cymwysedig sy’n dysgu cyrsiau galwedigaethol o fewn y cwricwlwm lleol), yn is-baragraff (2), yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil”.

---

(**8**) 2008 mccc 2. Diwygiwyd adran 1(4)(g) gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 23(2).

(**9**) 2013 dccc 1. Diwygiwyd paragraffau 10(3)(c)(i) a 19(2)(c)(i) o Atodlen 2 gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 29(12).

(**10**) 2014 dccc 1. Mae diwygiadau i adran 6 ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(**11**) O.S. 2015/140 (Cy. 8), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

**Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016**

**10.** Yng Ngorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016(**12**), yn erthygl 2 (dehongli), yn y diffiniad o "corff dysgu seiliedig ar waith", yn lle "adran 34(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000" rhodder "adran 97 neu 103 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022".

*Enw*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**12**) O.S. 2016/1183 (Cy. 288), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

*Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 143(3) and (4)(e)(ii) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1).*

D R A F T   W E L S H   S T A T U T O R Y   I N S T R U M E N T S

# 2026 No.

# EDUCATION, WALES

# The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Consequential Amendments and Transitory Provision) Regulations 2026

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made under section 146 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 ("the 2022 Act") which enables the Welsh Ministers to make provision for the purposes of, in consequence of, or for giving full effect to any provision of the 2022 Act.

The 2022 Act establishes the Commission for Tertiary Education and Research ("the Commission"), abolishes the Higher Education Funding Council for Wales, and makes provision in relation to the regulation and funding of tertiary education and research in Wales.

Regulation 2 makes an amendment which is consequential upon the conferral of functions on the Commission by Part 3 of the 2022 Act.

Regulation 3 makes an amendment which is consequential upon amendments to section 91(5) of the Further and Higher Education Act 1992 and provides for a related temporary modification.

Regulations 4 and 5 make amendments which are consequential upon the conferral of functions on the Commission by Part 3 of the 2022 Act and the repeal of provisions in Part 2 of the Learning and Skills Act 2000 ("the 2000 Act").

Regulation 6 makes an amendment which is consequential upon the conferral of functions on the Commission by Part 3 of the 2022 Act.

Regulation 7 makes amendments which are consequential upon the repeal of provisions in the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Standards and Framework Act 1998.

Regulation 8 makes an amendment which is consequential upon the repeal of provisions in Part 2 of the 2000 Act and regulation 9 makes an amendment which is consequential upon amendments to Part 2 of the 2000 Act.

Regulation 10 makes an amendment which is consequential upon the conferral of functions on the Commission by Part 3 of the 2022 Act and the repeal of provisions in Part 2 of the 2000 Act.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

*Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 143(3) and (4)(e)(ii) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1).*

DRAFT WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No.

# EDUCATION, WALES

## The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Consequential Amendments and Transitory Provision) Regulations 2026

*Made* ***

*Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by section 146 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022(**1**), make the following Regulations.

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 143(3) and (4)(e)(ii) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

### Title and coming into force

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Consequential Amendments and Transitory Provision) Regulations 2026.

(2) This regulation and regulations 2 and 4 to 10 come into force on 1 April 2026.

(3) Regulation 3 comes into force on 31 July 2026.

### School Standards and Framework Act 1998

**2.** In the School Standards and Framework Act 1998(**2**), in section 82 (modification of trust deeds), in subsection (1), for "or the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013" substitute ", the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 or the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022".

(**1**) 2022 asc 1.
(**2**) 1998 c. 31. Section 82(1) was amended by the Education Act 2002 (c. 32), Schedule 21, paragraph 108; the Education and Inspections Act 2006 (c. 40), Schedule 3, paragraph 28; the Academies Act 2010 (c. 32), Schedule 2, paragraph 9; and the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (anaw 1), Schedule 5, paragraph 19(1) and (8).

### Care Standards Act 2000

**3.**—(1) In the Care Standards Act 2000(**3**), in Schedule 2B (persons whose arrangements are subject to review by the Commissioner under section 73), for paragraph 8 substitute—

> **"8.** Any tertiary education provider (other than one within paragraph 6, 7, 9 or 10) that is registered in a category specified in regulations made for the purposes of section 88 or 105 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022."

(2) The modification set out in paragraph (3) applies until the coming into force in full of paragraph 6(3)(c) of Schedule 4 to the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022.

(3) Schedule 2B to the Care Standards Act 2000 has effect as if after paragraph 8 there were inserted—

> **"8A.** Any university receiving financial support under section 65 of the Further and Higher Education Act 1992(**4**) (other than one within paragraph 7 or 8)."

### Saint David's Catholic College Incorporation Order 2005

**4.** In the Saint David's Catholic College Incorporation Order 2005(**5**), in article 10 (dissolution), in paragraph (2)(a)—

(a) before paragraph (i) insert—

> "(ai) the Commission for Tertiary Education and Research or the Welsh Ministers under section 97 or 103 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 in the period beginning with 1 April 2026;";

(b) for paragraph (i) substitute—

> "(i) the Welsh Ministers under section 34 of the Learning and Skills Act 2000(**6**) in the period beginning with 1 April 2006 and ending with 31 March 2026;".

### The Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2007

**5.**—(1) The Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2007(**7**) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation), in paragraph (1), at the appropriate place in alphabetical order insert—

---

(**3**) 2000 c. 14. Schedule 2B was inserted by the Children's Commissioner for Wales Act 2001 (c. 18), Part 2 of the Schedule.

(**4**) 1992 c. 13. Section 65 was amended by the Teaching and Higher Education Act 1998 (c. 30), section 27; the Special Educational Needs and Disability Act 2001 (c. 10), sections 34(1) and 42(6) and Schedule 9; S.I. 2010/1158, Schedule 2, paragraph 5(2); and the Higher Education and Research Act 2017 (c. 29), Schedule 11, paragraphs 12 and 15. Section 65 is subject to transitory modifications by virtue of S.I. 2024/806 (W. 130) (C. 51) and is due to be repealed by the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022, Schedule 4, paragraph 6(3)(c).

(**5**) S.I. 2005/2293 (W. 171), amended by S.I. 2005/3238 (W. 243).

(**6**) 2000 c. 21. Section 34 was amended by the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1), paragraphs 1 to 3 and 6 of the Schedule. Section 34 has been repealed by the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022, Schedule 4, paragraph 14(18).

(**7**) S.I. 2007/2310 (W. 181), amended by S.I. 2011/1043, 2013/1792 (W. 179), 2020/1302 (W. 287), 2021/481 (W. 148), 2021/1365 (W. 360), 2022/764 (W. 166), 2023/87 (W. 17), 2023/633 (W. 97) and 2023/1349 (W. 243). There are other amending instruments, but none is relevant to these Regulations.

““the Commission” (“*y Comisiwn*”) means the Commission for Tertiary Education and Research established by section 1 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022;”.

(3) In regulation 8 (payments by the Welsh Ministers)—

(a) in paragraph (1)—

(i) after “lawful for” insert “the Commission or”;

(ii) for “section 34 of the Learning and Skills Act 2000” substitute “section 97 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022”;

(b) in paragraph (2)—

(i) after “institution to which” insert “the Commission or”;

(ii) for “section 34 of the Learning and Skills Act 2000” substitute “section 97 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022”.

### Learner Travel (Wales) Measure 2008

**6.** In the Learner Travel (Wales) Measure 2008(**8**), in section 1 (main terms used in this Measure), in subsection (4)(g), after “section 97” insert “or 103”.

### School Standards and Organisation (Wales) Act 2013

**7.**—(1) The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013(**9**) is amended as follows.

(2) In Schedule 2 (regulated alterations)—

(a) in paragraph 10 (alterations to premises), in sub-paragraph (3)(c)(i), for “, 68 or 72” substitute “or 68”;

(b) in paragraph 19 (increase in pupils: special schools), in sub-paragraph (2)(c)(i), for “, 68 or 72” substitute “or 68”.

(3) In Schedule 5 (minor and consequential amendments), in paragraph 19(7)(b), omit “section 75(2)(b) of,”.

### Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Act 2014

**8.** In the Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Act 2014(**10**), in section 6 (abolition of duties of further education institutions to comply with directions), omit subsection (1).

### The Education Workforce Council (Main Functions) (Wales) Regulations 2015

**9.** In the Education Workforce Council (Main Functions) (Wales) Regulations 2015(**11**), in Schedule 3 (requirements to be satisfied by persons who are not qualified teachers in order to carry out specified work), in paragraph 6 (qualified further education teachers teaching vocational courses within the local curriculum), in sub-paragraph (2), for “Welsh Ministers” substitute “the Commission for Tertiary Education and Research”.

(**8**) 2008 nawm 2. Section 1(4)(g) was amended by the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022, Schedule 4, paragraph 23(2).
(**9**) 2013 anaw 1. Paragraphs 10(3)(c)(i) and 19(2)(c)(i) of Schedule 2 were amended by the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022, Schedule 4, paragraph 29(12).
(**10**) 2014 anaw 1. There are amendments to section 6, but none are relevant.
(**11**) S.I. 2015/140 (W. 8), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

### The Education Workforce Council (Registration of Youth Workers, Youth Support Workers and Work Based Learning Practitioners) Order 2016

**10.** In the Education Workforce Council (Registration of Youth Workers, Youth Support Workers and Work Based Learning Practitioners) Order 2016(**12**), in article 2 (interpretation), in the definition of “work based learning body”, for “section 34(1) of the Learning and Skills Act 2000” substitute “section 97 or 103 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022”.

*Name*
Minister for Further and Higher Education, under authority of the Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
Date

(**12**) S.I. 2016/1183 (W. 288), to which there are amendments not relevant to these Regulations.